

Ydych chi am ennill cyflog wrth ddysgu? Ydych chi rhwng 16 a 24 oed?

- *Ydych chi'n gallu cydymdeimlo a chynnig gofal?*
- *Ydych chi am i bob dydd fod yn her ac yn wahanol?*
- *Ydych chi am gael eich talu wrth ennill sgiliau?*
- *Ydych chi am gael cyfle i ddilyn llwybr gwerth-chweil er mwyn cael gyrfa lwyddiannus?*

Ydych? ...yna dylech ystyried prentisiaeth ym maes y blynyddoedd cynnar, gofal plant neu ofal cymdeithasol.

Bydd llawer o bobl angen gofal ar wahanol adegau yn eu bywydau, boed hynny ar gyfer eu plant ifanc mewn gofal dydd, neu oedolion a all fod angen cymorth ychwanegol i wneud tasgau a gymerwn yn ganiataol. Mae unigolion sy'n gweithio ym maes gofal yn darparu'r gefnogaeth a'r cymorth hwnnw.

Mae gofal cymdeithasol yn yrfa hynod o werth-chweil sy'n cynnig dewis eang o gyfleuoedd a swyddi.

Mae rhagor o wybodaeth yn...

CCW www.cgcmru.org.uk/prentisiaethau
Gyrfa Cymru www.careerswales.com/cy



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government